Rydym wedi dyfarnu £32 miliwn i adfer adeiladau a



Bydd cymeriad hanesyddol Plas Gunter yn cael ei adfer. Credyd: Ymddiriedolaeth Plas Gunter.

O'r Fenni yng Nghymru i gefn gwlad Essex, archwiliwch sut mae ein rownd ddiweddaraf o fuddsoddiadau'n cefnogi adfywio trefi a thirweddau.

Yn ein cyfarfodydd pwyllgor ym mis Medi, dyfarnwyd dros £32 miliwn mewn grantiau i brosiectau ar draws y DU. Yn eu plith mae chwe sefydliad sy'n gweithio i wneud eu hardal leol yn lle gwell i fyw ar gyfer pobl a bywyd gwyllt.

Gyda'i gilydd, bydd y prosiectau'n gwella cyflwr treftadaeth a mynediad ati, yn adfer cynefinoedd ac yn dod ag adeiladau rhestredig segur sydd mewn perygl yn ôl i ddefnydd.

Yr hyn rydym wedi'i ariannu

Plasty Plas Gunter, Y Fenni

Gyda'n grant o £3.3m, bydd Ymddiriedolaeth Plas Gunter yn adfer t? a chwaraeodd rôl arwyddocaol ym mrwydrau gwleidyddol a chrefyddol yr 17eg ganrif. Yn y 1670au, caniataodd y perchennog Thomas Gunter i offeren Gatholig gael ei chynnal yn anghyfreithlon mewn capel yn yr atig. Nawr bydd atgyweiriadau hanfodol yn galluogi'r adeilad rhestredig Gradd II* i agor i'r cyhoedd am y tro cyntaf.

Dywedodd Owen Davies, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Plasty Plas Gunter: “Mae potensial sylweddol i’n prosiect ennyn diddordeb mwy o bobl â threftadaeth, rhoi hwb i’r economi leol a gwneud Y Fenni yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.”

Sund



Credyd: Cyngor Dinas Sunderland.

Rydym wedi dyfarnu £5.2m i Sunderland Museum and Winter Gardens tuag at raglen ddatblygu a fydd yn adfer yr adeilad hoff annwyl ac ailddychmygu ei arddangosfeydd a'i gyfleusterau. Bydd y prosiect yn creu gofod cynhwysol a chroesawgar sy'n cefnogi adfywiad y ddinas ac yn adlewyrchu ei chymunedau lleol.

Inverbroom Estate, Ucheldiroedd Yr Alban

Bydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yr Alban yn trawsnewid Inverbroom ar gyfer pobl leol a natur gyda grant datblygu o £745,268 a'r posibilrwydd o £1m pellach o arian cyflwyno. Bydd cynlluniau newydd yn helpu'r ystâd – sy'n cynnwys orgorsydd prin, coetiroedd lled-naturiol a nifer o lynnoedd – i fod yn fodel ar gyfer adferiad byd natur ar raddfa tirweddau.

Afon Roding

Bydd cyllid o £1.6m yn rhoi hwb i adferiad Afon Roding – sy'n rhedeg o Essex i Barking Creek yn Nwyrain Llundain – ar ôl degawdau o lygredd ac esgeulustod. Nod y prosiect yw gwella ansawdd d?r, cefnogi adferiad byd natur ac ailgysylltu cymunedau â'u hafon leol.



Pobl leol yn archwilio Afon Roding ym Mharc Wanstead, Redbridge. Credyd: Thames21.

Benton End, Suffolk

Rydym wedi dyfarnu grant datblygu o £294,221 i Benton End cyn grant cyflwyno posibl o £2.6m. Bu'r t? rhestredig Gradd II* o'r 16eg ganrif yn gartref i'r artist a'r garddwr Syr Cedric Morris (1889–1982) a'i bartner, yr arlunydd a'r cerflunydd Arthur Lett-Haines (1894–1978). Bydd y prosiect yn datblygu cynlluniau i atgyweirio'r adeilad a'i wneud yn fwy hygyrch i ymwelwyr.

Carlisle Memorial, Belfast

Mae Carlisle Memorial wedi derbyn grant datblygu o £223,076 cyn grant cyflwyno posibl o £1.1m i greu cynlluniau ar gyfer adfer ac uwchraddio'r hen adeiladau eglwys restredig Gradd B1. Mae'r tirnod yn Belfast ar hyn o bryd ar Gofrestr Treftadaeth Adeiledig mewn Perygl Gogledd Iwerddon.

Achub treftadaeth

Mynnwch fwy o wybodaeth am brosiectau sy'n amddiffyn treftadaeth sydd mewn perygl ac yn helpu cymunedau i fwynhau'r lleoedd maen nhw'n gofalu amdanynt.



efyd mewn ...

Bydd y prosiect yn adfer murluniau yn yr hen gapel. Credyd: Ymddiriedolaeth Plasty Plas Gunter.



s Gunter

Local people explore the River Roding at Wanstead Park, Redbridge. Photo: Thames21.



oding

Dathlu G?yl Forwrol Belfast ar lannau Afon Lagan. Llun: Maritime Belfast Trust.

Chwe ardal, tref a dinas ar draws y DU i elwa o fuddsoddi hirdymor